

Palasau Hywl



Cyfleoedd a Chydweithwyr



CYFLEOEDD A CHYDWEITHWYR - DOD YNGHYD!

Dyma restr o ddigwyddiadau cymunedol eraill y gallwch chi a'ch tîm o Grewyr gymryd rhan ynddynt - wedi'u coladu'n daclus fesul mis trwy gydol y flwyddyn ...

IONAWR

HER MIS IONAWR

Bob blwyddyn, mae miloedd o bobl yn cymryd rhan yn y digwyddiad 31 diwrnod 64 Miliwn o Artistiaid o heriau creadigol am ddim. Cynhelir [Her Mis Ionawr](#) ar draws cyfryngau cymdeithasol ac mae'n hybu creadigrwydd, cefnogaeth gan gymheiriaid a llesiant. Yn 2022 roedd y ffocws ar dair thema: "Rydyn ni'n Ddynol", "Rydyn ni'n Ddiwylliant" ac "Rydyn ni'n Gysylltiedig". Mae 2023 yn nodi dengmlwyddiant 64 Million Artists! Dyma ffordd wych o gychwyn eich blwyddyn yn y gwaith neu fel arall.

CHWEFROR

MIS HANES LHDT

Hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth er budd y cyhoedd. Cynyddu gweladwyedd pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryw ("LHDT"), eu hanes, eu bywydau a'u profiadau yng nghwricwlwm a diwylliant sefydliadau addysg, sefydliadau eraill a'r gymuned ehangach. [Mwy o wybodaeth yma.](#)

MAWRTH

WYTHNOS GWYDDONIAETH PRYDAIN

Mae'r Gymdeithas Gwyddoniaeth Brydeinig yn rhedeg [Wythnos Gwyddoniaeth Prydain](#) bob mis Mawrth ac yn croesawu cyfranogiad unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwyddoniaeth a digwyddiadau lleol. Fel Crëwr Palas Hwyl, efallai y byddwch am greu cysylltiad â changen leol y GGB, ymuno â'u digwyddiadau a'u gwahodd i gyfrannu at eich un chi. Y dyddiadau eleni yw 11-20 Mawrth.



MAI

GŴYL AGE OF CREATIVITY

Mae Age of Creativity yn cefnogi gweithwyr proffesiynol yn y sectorau celfyddydau, iechyd, diwylliant, gofal cymdeithasol, gwirfoddol a chymunedol a'r byd academiaidd i gymryd rhan mewn digwyddiadau creadigol a mwynhau gwell iechyd, llesiant ac ansawdd bywyd. Bydd Age of Creativity yn rhedeg ei phumed ŵyl, o fis Mai 2022. [Mwy o wybodaeth yma.](#)

MEHEFIN

Y CINIO MAWR

Mae'r [Cinio Mawr](#) yn galw ar gymunedau i gymryd rhan mewn ymgyrch flynyddol y Deyrnas Unedig i gymdogion ddod ynghyd trwy gynnal eu Cinio Mawr eu hunain. Mae trefnu Cinio Mawr gyda'ch cymuned yn ffordd wych o gychwyn sgysiau am eich Palas Hwyl - pwy a ŵyr beth y gallech ei ddyfeisio dros ginio? Eleni fe'i cynhelir rhwng 2 a 5 Mehefin 2022.

MEDI

DIWRNODAU TREFTADAETH AGORED

Diwrnodau Treftadaeth Agored yw gŵyl hanes a diwylliant fwyaf Lloegr. Bob blwyddyn mae lleoedd ledled y wlad yn agor eu drysau i ddathlu eu treftadaeth, cymuned a hanes. Gallwch weld lleoedd cuddiedig a rhoi cynnig ar brofiadau newydd. Cynhelir Diwrnodau Treftadaeth Agored 2022 rhwng 9 a 18 Medi. [Rho gip ar eu gwefan](#) i weld sut y gallwch chi gymryd rhan.

HYDREF

PENWYTHNOS O DDATHLU Y PALASAU HWYL! (roeddech chi'n gwybod hynny, ie?)

30 Medi – 2 Hydref. [Cofrestrwch yma!](#)

SILVER SUNDAY

Mae Silver Sunday yn darparu cyfle i awdurdodau lleol, elusennau, grwpiau cymunedol a sefydliadau preifat, gwirfoddol a chyhoeddus hybu'r hyn y maent eisoes yn ei wneud i liniaru unigedd ac unigrwydd cymdeithasol ymysg pobl hŷn. Eleni mae'n digwydd ar 2



Hydref 2022, felly os ydych yn hŷn neu'n creu Palas Hwyl gyda phobl hŷn, cofrestrwch eich Palas Hwyl ar gyfer Silver Sunday hefyd. [Mwy o wybodaeth yma.](#)

MIS HANES POBL DDUON

Mae Mis Hanes Pobl Dduon, sy'n digwydd trwy gydol mis Hydref, yn gyfle i gofio'r gorffennol ac edrych ymlaen at y dyfodol, gan ddod ynghyd i adnewyddu ein hymrwymiad i gydraddoldeb hiliol. Gan ei fod hyn digwydd yn ystod mis Hydref (yn y Deyrnas Unedig) bob blwyddyn, mae'n gyfle gwych i godi awydd am hanes lleol a dysgu yn eich Palas Hwyl. [Mis Hanes Pobl Dduon.](#)

... A dyma gwpl o sefydliadau eraill sy'n gwneud pethau gwych trwy gydol y flwyddyn:

RE-ENGAGE

Mae Re-Engage yn dod â phobl hŷn ynghyd mewn grwpiau cymdeithasol mewn cyfnod yn eu bywydau pan fydd eu cylchoedd cymdeithasol yn lleihau. Y llynedd, cefnogwyd dros 8,000 o bobl hŷn ar draws y Deyrnas Unedig gan 14,734 o wirfoddolwyr. Bwrw golwg ar eu gwefan i [weld a oes grŵp yn eich ardal chi](#) – efallai y gallant fod yn rhan o'ch Palas Hwyl eleni.

WHAT NEXT?

Mae What Next (WN?) yn fudiad Deyrnas Unedig gyfan sy'n dod â phobl ynghyd i fynegi, cryfhau ac eirioli dros rôl diwylliant yn ein cymdeithas. Mae urddau lleol ar draws y Deyrnas Unedig y maent yn dod â phobl sy'n gweithio yn myd diwylliant neu'n angerddol drosto ynghyd, i ymdrin â materion sydd o bwys iddynt. WN? Mae'r Urddau'n ffordd wych o gwrdd â phobl a allai fod yn frwd dros gymryd rhan yn eich Palas Hwyl, lledaenu'r gair, ac yn bwysicaf oll, rhoi eich Palas Hwyl yng nghyd-destun trafodaethau gwleidyddol am y celfyddydau a diwylliant yn eich ardal. Mae mwy o wybodaeth [yma.](#)